


Tasg 1

Hoff siocled?


1. Beth ydy hoff siocled y grŵp? Pam? Llenwch y grid yma.



Enw	Hoff siocled	Pam?

Dyma ychydig o help i chi:

<p>Fy hoff siocled i ydy ... achos ...</p> <p>Mae ... yn flasus. yn felys yn fendigedig yn llyfn</p> <p>Dw i'n hoffi blas ... Mae llawer o (gnau) mewn bar o ...</p> <p>Mae ... yn fwy blasus na ... melys llyfn</p> <p>Mae ... yn llai blasus na ... melys llyfn</p> <p>Dw i'n meddwl bod ... yn flasus iawn. Dw i'n meddwl ei fod e'n / o'n flasus iawn.</p>	<p>... is my favourite chocolate because ...</p> <p>... is tasty sweet gorgeous smooth</p> <p>I like the taste of ... There are lots of (nuts) in a bar of ...</p> <p>... is more tasty than ... sweeter smoother</p> <p>... is less tasty than ... sweet smooth</p> <p>I think that ... is very tasty. I think that it's very tasty.</p>
--	---



2. Meddylwch am hysbyseb am siocled neu siocledi ar y teledu neu ar y we. Disgrifiwch yr hysbyseb.

Nawr, atebwch y cwestiynau yma:

- Oes stori yn yr hysbyseb?
- Ydy'r hysbyseb yn disgrifio'r siocled? Beth mae'n ddweud am y siocled?
- Ydy'r hysbyseb yn ddiddorol? Pam?
- Ydy'r hysbyseb yn ddoniol? Pam?

3. Mewn grŵp, gwnewch hysbyseb am un o'r bariau siocled yn y grid.

Meddylwch am stori.

Disgrifiwch y siocled.

Sgriptiwch yr hysbyseb. Cofiwch: rhaid perswadio pobl i brynu'r siocled, felly defnyddiwch:

- ansoddeiriau da
- cwestiynau
- gorchmynion.

4. Nawr, chwiliwch am wybodaeth am siocled Divine ac am siocled Masnach Deg, e.e. ble ydych chi'n gallu prynu siocled Divine yn yr ardal?

Mewn grŵp gwnewch boster i hysbysebu siocled Divine.

